COLEG POWYS
Y DYFODOL
2010-2011

DIWEDDARIAD

Coleg Powys

FCChC - Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru

Cyflwynir fframwaith newydd ym mis Medi 2010 a fydd yn diffinio'n eglur y lefel maint a theitl cymwysterau galwedigaethol. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n hawdd deall a chymharu'r gwahanol gymwysterau sydd ar gael.

Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae llawer o gymwysterau wedi i ail ysgrifennu, neu i'w hail ysgrifennu erbyn Medi 2010.
- Mi fyddwch yn medru ennill cymwysterau dros gyfnod o amser trwy ddefnyddio gwahanol gyrff dyfarnu a darparwyr addysg, bancio credydau tan fod gennych ddigon i gael dyfarniad, tystysgrif neu ddiploma.
- Ar hyn o bryd mae FCChC yn berthnasol i gymwysterau galwedigaethol, ac nid i TGAU, Lefel A/UG.
- Bydd dysgwyr yn medru hawlio credydau am unrhyw ddysgu anffurfiol e.e. profiad gwaith, a chydnabyddiaeth am unrhyw ddysgu blaenorol.

Sut fydd hyn yn effeithio ar ddysgwyr amser llawn fydd yn cychwyn yn y coleg ym Medi 2010?

- Bydd cymwysterau yn cael eu hail ysgrifennu ond mi fyddant yn eithaf tebyg i'r rhai a gyhoeddwyd yn y prosbectws.
- Efallai fydd teitlau'r cymwysterau yn newid ychydig, ond bydd gofynion mynediad i raglenni dysgu amser llawn fwy neu lai'r un fath.
- Bydd cynnwys y dysgu, y dull o drosglwyddo ag asesi mwy neu lai'r un fath.
- Byddwch yn ennill cymwysterau FCChC a gydnabyddir yn genedlaethol. Bydd y rhain yn eich galluogi i symud ymlaen i fyd gwaith, astudiaeth bellach neu AU trwy bwyntiau UCAS.
- Ni fyddwch o dan anfantais oherwydd y symudiad i FCChC, efallai y byddwch yn elwa yn y dyfodol oherwydd y gallu i gasglu a throsglwyddo credydau.

Newidiadau i Gyrsiau Amser Llawn yn 2010/11

Cyrsiau fydd yn cychwyn

- Iechyd, Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 BTEC yn Aberhonddu
- Trin Gwallt a Therapi Harddwch Lefel 2 yn Aberhonddu
- Diploma Uwch Therapi Harddwch Lefel 3 yn Aberhonddu

Cyrsiau fydd yn cael eu tynnu'n ôl

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Astudiaethau Iechyd) Diploma Cenedlaethol BTEC Aberhonddu